**Adroddiad i'r:** **Cyngor**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **17 Tachwedd 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd**

**Awdur yr Adroddiad:** **Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr**

**Teitl: Uno Gwirfoddol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych – Datgan Diddordeb**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad i'r aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaed ar gyfer yr opsiwn uno gwirfoddol ers cyfarfod y Cyngor ar 9 Medi 2014 ac i argymell bod y Cyngor yn cytuno i gyflwyno'r Datganiad Diddordeb sydd ynghlwm i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Tachwedd 2014.

1.2 Ar 9 Medi 2014 bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad gan y Prif Weithredwr am yr opsiwn uno gwirfoddol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol, a gyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf 2014 a'r Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru Gyflwyno Cynigion ar gyfer Uno Gwirfoddol ('Prosbectws') a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2014 yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer uno cynghorau.
http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/localgov/140918-lg-proposals-voluntary-merger-en.pdf
http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/localgov/140918-lg-proposals-voluntary-merger-cy.pdf

1.3 Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi cytunodd yr Aelodau i ymchwilio'r opsiwn hwn ymhellach ac, ar yr amod bod uno gwirfoddol yn cynnig manteision ariannol sylweddol, a deuir i gytundeb gyda Chyngor Conwy, i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar y cyd i Lywodraeth Cymru.

1.4 Ers cyfarfod y Cyngor ym mis Medi bu datblygiadau pwysig sy'n cael eu crynhoi isod:

- Pasiodd Cyngor Conwy gynnig tebyg, gan gytuno i ymchwilio i'r opsiwn o uno yn wirfoddol gyda Chyngor Sir Ddinbych yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2014.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Brosbectws' ar gyfer uno gwirfoddol: "Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru Gyflwyno Cynigion ar gyfer Uno Gwirfoddol"
- Bu nifer o gyfarfodydd rhwng Sir Ddinbych a Chonwy. Cytunodd y cyfarfodydd hyn i gomisiynu CIPFA i gynnal ymarfer cynilion a chostau ac i

fynd ymlaen i ddrafftio Datganiad o Ddiddordeb ar y cyd ar gyfer Aelodau'r ddau gyngor i'w ystyried yn eu cyfarfodydd cyngor ar 17 Tachwedd.

- Mae'r Arweinyddion Grŵp yn Sir Ddinbych a grŵp trawsbleidiol yng Nghonwy wedi cael eu sefydlu i oruchwylio datblygiadau'r uno.

- Bu nifer o drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chyfarfod lefel uchel gyda'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus ar 12 Tachwedd 2014.

## 2. Beth yw'r Argymhellion?

2.1 Gofynnir i aelodau gytuno i gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb sydd ynghlwm (Atodiad 2) i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Tachwedd 2014; ac

2.2 Yn amodol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Datganiad o Ddiddordeb, a ddisgwylir erbyn 5 Ionawr 2015, i gychwyn ar y broses o baratoi'r Achos Busnes llawn ar gyfer uno, i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ym Mehefin/Gorffennaf 2015.

## 3. Yr Achos dros Uno Gwirfoddol

3.1 Mae'r Datganiad o Ddiddordeb sydd ynghlwm yn dechrau gosod allan yr achos busnes dros uno gwirfoddol. Nid yw'n Achos Busnes ar gyfer uno. Cynghorir aelodau i beidio ymrwymo i uno gwirfoddol nes bod Achos Busnes llawn yn cael ei ddatblygu a'i ystyried yn ofalus.

3.2 Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, bod pedwar rheswm pwysig pam y dylai Aelodau gytuno i gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb sydd ynghlwm a symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes llawn. Y rhain yw:

(i) Tebygrwydd rhwng ardaloedd yr awdurdodau lleol ac awdurdodau lleol (Datganiad o Ddiddordeb yn manylu yn Atodiad 2)

(ii) Yr ymarfer costau ac arbedion gan CIPFA (manylion yn Atodiad 1)

(iii) Annog cefnogaeth gynnar gan Lywodraeth Cymru

(iv) Manteision o uno gwirfoddol dros uno gorfodol

## 4. Annog cefnogaeth gynnar gan Lywodraeth Cymru

4.1 Ar 18 Medi 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei "Brosbectws" ar gyfer uno gwirfoddol: “Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol". Mae'r ddogfen braidd yn amwys am y

cymorth ariannol fydd ar gael ar gyfer uno gwirfoddol. Ar y naill law mae'n dweud, yn galonogol:

> "Rydym yn bwriadu sicrhau bod adnoddau ar gael, yn wahanol ac ar wahân i'r Grant Cynnal Refeniw, er mwyn cefnogi uno gwirfoddol." ***T3***

ond yn llai calonogol:

> "O ystyried y pwysau ariannol difrifol a wynebwn, mae'n afrealistig disgwyl i Lywodraeth Cymru roi chwistrelliad mawr o arian parod i gefnogi proses uno." ***T5***

4.2 Ers cyhoeddi'r Papur hwn bu nifer o sgyrsiau gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru am yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei gynnig. Yn y sgyrsiau hyn mae Llywodraeth Cymru yn ymddangos yn cydnabod bod:

(a) costau sylweddol ynghlwm wrth ariannu'r broses uno ac nid oes gan awdurdodau lleol yr arian hwn ar gael iddynt

(b) yn anodd iawn i awdurdodau lleol reoli'r broses uno ac agenda toriadau sylweddol ar yr un pryd

(c) Llywodraeth Cymru yn dymuno gweithio gydag awdurdodau lleol sydd o ddifrif am uno gwirfoddol, i ddod o hyd i ffyrdd o gwmpas yr heriau hyn

4.3 Ar 12 Tachwedd roedd gan ddau Arweinydd Sir Ddinbych a Chonwy ynghyd â'r ddau Brif Weithredwr gyfarfod gyda'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn a'i gyflwyno ar gyfer argraffu cyn y dyddiad hwnnw, felly bydd diweddariad ar lafar yn cael ei roi yng nghyfarfod y Cyngor.

## 5. Manteision Uno Gwirfoddol dros Uno Gorfodol

5.1 Os yw uno awdurdodau lleol yn anorfod, yna mae gwirfoddoli i uno'n gynt yn hytrach nag aros i gael eu huno yn nes ymlaen yn well am nifer o resymau:

- Cefnogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru: 'Prosbectws +'
- Cyfnod byrrach o falltod cynllunio ac ansicrwydd
- Rhyddhau arbedion effeithlonrwydd yn gynharach ac integreiddio prosesau cynllunio
- Mae'n gosod tôn a diwylliant cadarnhaol ar gyfer y cyngor newydd
- Un set yn llai o etholiadau
- Mae'n rhoi syniad clir o gyfeiriad i staff

## 6. Risgiau

6.1 Mae uno dau awdurdod unedol yn ymgymeriad mawr sy'n sicr o gynnwys llawer o risgiau. Bydd risgiau'n gysylltiedig ag arwyddo ar gyfer yr uno; rheoli'r

broses uno ac yna, efallai yn fwyaf arwyddocaol, rheoli canlyniadau’r awdurdodau unedig y tu hwnt i'r Diwrnod Breinio. Mae'n rhaid i'r Achos Busnes llawn nodi’r risgiau hyn yn eithaf manwl.

6.2 Mae rhai o'r risgiau hyn eisoes yn glir a dylai Aelodau eu hystyried cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r prosiect uno. Mae rhai risgiau’n fwy sylweddol nag eraill a gallai’r rhain hyd yn oed fod yn "dorwyr cytundeb" os ydynt yn parhau heb eu datrys:

**‘Torwyr Cytundeb’ posibl**

- Ariannu costau’r uno
- Y gallu i reoli’r toriadau a'r prosiectau uno ar yr un pryd
- Cytundeb ar wneud penderfyniadau gan ‘Awdurdod Cysgodol’
- Cysoni Treth y Cyngor

**Risgiau Eraill**

- Effaith ar berfformiad a safonau
- Trefniadau pensiwn
- Ewyllys wleidyddol i yrru'r arbedion
- Potensial ar gyfer anghytundeb difrifol rhwng partïon allweddol
- Cefnogaeth genedlaethol ansicr ar ôl Mai 2016
- Cysoni gwahanol lefelau gwasanaeth
- Llawer nad ydym wedi’i nodi eto

## 7. Casgliadau

7.1 Mae'n ymddangos yn glir, o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, bod yna achos cryf dros gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ac, os caiff ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, i ddechrau gweithio ar Achos Busnes llawn.

7.2 Fodd bynnag, mae yna nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â symud ymlaen â'r broses uno wirfoddol, y mwyaf arwyddocaol yw’r 'torwyr cytundeb’ posibl yn adran 6 o'r adroddiad hwn. Bydd angen datrys y rhain yn ystod y broses Achos Busnes llawn.

## 8. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

8.1 Nid yw’r penderfyniad a geisir yn effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol y cyngor ar hyn o bryd.

## 9. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

9.1 Nid oes unrhyw gostau ynghlwm wrth gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb, ond bydd costau ynghlwm wrth ddatblygu'r Achos Busnes llawn. Bydd y Cyngor yn trafod ariannu hyn gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**10. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

10.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ar hyn o bryd.

**11. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

11.1 Nid yw'r Datganiad o Ddiddordeb wedi cael ei archwilio. Cafwyd trafodaethau manwl gyda Llywodraeth Cymru, swyddogion Conwy ac aelodau, Arweinwyr Grŵp Sir Ddinbych ac uwch reolwyr.

**12. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

12.1 Nid yw cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb yn ymrwymo'r cyngor i symud ymlaen i uno ac nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost. Mae bwrw ymlaen y tu hwnt i'r pwynt hwnnw yn amlwg yn gam mawr. Mae Atodiad 1 yn tynnu sylw at lawer o'r costau a manteision ariannol, ond, ar hyn o bryd dylai'r holl ffigyrau gael eu trafod yn ofalus o ystyried faint o amser sydd wedi bod ar gael i'w cynhyrchu.

**13. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

13.1 Bydd risgiau sylweddol os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig, ond nid ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu gosod yn gynhwysfawr i'r aelodau eu hystyried ym Mehefin/Gorffennaf 2015, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo i'r cam hwnnw.

**14. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

14.1 Mae goblygiadau'r cynigion yn effeithio ar bob aelod etholedig ac ar ddyfodol y cyngor. Felly, mae'n briodol i ofyn am gymeradwyaeth y Cyngor llawn.